# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 22 Tachwedd 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 102(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Yn dilyn adroddiadau ynghylch gwariant ar siaradwyr enwog gan GwE, a wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y trefniadau atebolrwydd ar gyfer consortia addysg rhanbarthol yng Nghymru?

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

**Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y cynllun i ehangu ffordd Blaenau'r Cymoedd, yr A465, yn dilyn

adroddiadau y gallai cost hirdymor y prosiect saethu i fyny o £428 miliwn i fwy na £1.2 biliwn?

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

Leanne Wood (Rhondda): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am effaith cyllideb y DU ar gyflogau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau

(5 munud)

**NDM6575** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Mick Antoniw (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn lle Huw Irranca-Davies (Llafur).

**NDM6582** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jane Hutt (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn lle Eluned Morgan (Llafur).

**NDM6583** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jenny Rathbone (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn lle Jeremy Miles (Llafur).

**NDM6584** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jane Hutt (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid yn lle Eluned Morgan (Llafur).

**NDM6585** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Dawn Bowden (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn lle Jenny Rathbone (Llafur).

**NDM6586** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Mick Antoniw (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn lle Joyce Watson (Llafur).

**NDM6587** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Joyce Watson (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn lle Huw Irranca-Davies (Llafur).

**NDM6588** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Mick Antoniw (Llafur) yn aelod o Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn lle Hannah Blythyn (Llafur).

**NDM6589** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Joyce Watson (Llafur) yn aelod o Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn lle Jeremy Miles (Llafur).

**NDM6590** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Lee Waters (Llafur) yn aelod o Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn lle Hannah Blythyn (Llafur).

**NDM6591** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jenny Rathbone (Llafur) yn aelod o Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn lle Dawn Bowden (Llafur).

**NDM6592** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Rhianon Passmore (Llafur) yn aelod o Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn lle Jeremy Miles (Llafur).

## 5 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Seilwaith Digidol Cymru

(60 munud)

**NDM6558** [Russell George (Sir Drefaldwyn)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar ei ymchwiliad, 'Seilwaith Digidol Cymru', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2017.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 15 Tachwedd 2017.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6571** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu adolygiad y Grŵp Trawsbleidiol ar y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid o effaith cyfamod y lluoedd arfog yng Nghymru ac yn nodi ei argymhellion.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried yr argymhellion a gyflwynwyd gan yr adolygiad i sicrhau y darperir yr holl gymorth sydd ar gael i bersonél milwrol, cyn-filwyr a'u teuluoedd yng Nghymru.

Y Grŵp trawsbleidiol ar y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid - Adolygiad o Effaith Cyfamod y Lluoedd Arfog yng Nghymru

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddarparu ar gyfer personél milwrol, cyn-filwyr a'u teuluoedd yng Nghymru, sy'n cynnwys:

a) Dull cydweithredol y grŵp arbenigol amlasiantaethol o ystyried y materion sy'n effeithio ar gymuned y Lluoedd Arfog, a'r modd yr eir ati ar y cyd i fynd i'r afael â'r materion hynny;

b) y £100,000 o gyllid ychwanegol i wasanaeth Cyn-filwyr GIG Cymru er mwyn cynyddu ei gapasiti a gwella'i allu i helpu cyn-filwyr sydd mewn angen;

c) eglurder ynglŷn â'r ystod eang o wasanaethau sydd ar gael yn unol â'i dogfennau polisi allweddol: y Pecyn Cymorth, Croeso i Gymru a'r Llwybr Tai Cenedlaethol; ac

d) penodi Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog trwy Gymru i sicrhau cysondeb yn y modd y rhoddir y Cyfamod ar waith.

Rhoi a Derbyn - Pecyn Cymorth

Croeso i Gymru

Y Llwybr Tai Cenedlaethol

**Gwelliant 2** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am weithredu'r Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog.

**Gwelliant 3** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r penderfyniad i gynnwys cwestiynau am wasanaeth yn y lluoedd arfog yn Cyfrif Cenedlaethol o Gysgu Allan ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r data a gasglwyd.

## 7 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

(60 munud)

**NDM6566** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu:

a) y bydd cyflwyno trethi newydd yng Nghymru heb ganiatâd yr etholwyr, a thrin Cymru fel labordy treth arbrofol, yn niweidio enw da Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru; a

b) bod trethi y DU a Chymru yn ddigon uchel eisoes, yn atal entrepreneuriaeth a thwf ac yn gwasgu cyllidebau pobl sydd ar incwm isel.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i beidio â blaenoriaethu ymchwil i drethi newydd yng Nghymru ond, yn hytrach, i ddilyn polisïau i wella twf economaidd a chreu swyddi â chyflog da, na fyddant yn gosod beichiau treth ychwanegol ar unigolion a busnesau nac yn cosbi unigolion am sut y maent yn dewis byw eu bywydau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod datganoli treth i Gymru yn rhoi cyfle i wella atebolrwydd Llywodraeth Cymru i bobl Cymru.

2. Yn croesawu ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y posibilrwydd o gyflwyno treth arloesol i gefnogi amcanion polisi amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd.

3. Yn cefnogi cyflwyno treth ar ddeunydd pacio polystyren ehangedig tafladwy.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddatganoli'r doll teithwyr awyr a'r dreth gorfforaeth i Gymru.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu Deddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017, sy'n datganoli mwy o bwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn rhoi mwy o atebolrwydd o ran gweithrediadau dydd i ddydd Llywodraeth Cymru.

2. Yn credu bod sail dreth gynhwysfawr yn annog mwy o ffyniant.

3. Yn gresynu at gynnig Llywodraeth Cymru i gyflwyno treth ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru.

Deddf Cymru 2014 (Saesneg yn unig)

Deddf Cymru 2017 (Saesneg yn unig)

*[Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi iddo bleidleisio'n unfrydol o blaid y penderfyniad i brofi'r mecanwaith sydd yn Neddf Cymru i gynnig trethi newydd mewn dadl ar 4 Gorffennaf 2017.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer - Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

(30 munud)

**NDM6567** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Galw am help: diogelu plant sydd ar goll yng Nghymru.

## 10 Dadl Fer – Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru) – Gohiriwyd o 15 Tachwedd

(30 munud)

**NDM6570** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Busnes ar ôl Brexit a'r cyfleoedd i Gymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 28 Tachwedd 2017

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 15/11/17 i'w hateb ar 22/11/17

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

## Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Hefin David** *Caerffili*

1 OAQ51325

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella mynediad i safleoedd treftadaeth a gynhelir gan Cadw ar gyfer pobl yn eu hardaloedd lleol?

**Leanne Wood** *Rhondda*

2 OAQ51332

Pa gamau sy'n cael eu cymryd i wella'r economi yn hen ardaloedd diwydiannol Cymru?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

3 OAQ51329

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella ffyrdd yn ne-ddwyrain Cymru?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OAQ51328

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am brosiectau trafnidiaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Leanne Wood** *Rhondda*

5 OAQ51323

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i roi hwb i'r economi wledig?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

6 OAQ51310

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch priffyrdd ar y rhwydwaith cefnffyrdd yng ngogledd Cymru?

**Steffan Lewis** *Dwyrain De Cymru*

7 OAQ51305 Datganodd yr Aelod fuddiant

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wasanaethau rheilffordd yn ne-ddwyrain Cymru?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

8 OAQ51308

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu busnesau yng Nghymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

9 OAQ51312

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngogledd Cymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

10 OAQ51313 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd?

**Hefin David** *Caerffili*

11 OAQ51324

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am rôl cydlynwyr cynlluniau teithio yn y broses o hyrwyddo patrymau gweithio hyblyg yng Nghymru?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

12 OAQ51314

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fanteision metro de Cymru i Bontypridd?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

13 OAQ51331

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella cysylltiadau trafnidiaeth yng Ngorllewin De Cymru?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

14 OAQ51330

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael ynglŷn â rheilffordd Dyffryn Aman?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

15 OAQ51309

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau sy'n digwydd ar safle SA1 yn Abertawe?

# Cwnsler Cyffredinol

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

1 OAQ51315

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r effaith y byddai datblygu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn ei chael ar faint y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

2 OAQ51334

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal ynghylch rôl hawliau dynol yn neddfwriaeth Cymru?

**Leanne Wood** *Rhondda*

3 OAQ51333

Pa sylwadau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u gwneud ar ran Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phroses Brexit?

**Simon Thomas** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OAQ51318 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r sail gyfreithiol i'r cyfnod trosiannol a fydd yn bodoli ar ôl i Erthygl 50 ddod i rym?

**David Rees** *Aberafan*

5 OAQ51327

Pa sylwadau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u gwneud mewn perthynas â'r cyfamod ar dir ym mharc diwydiannol Baglan?

**Simon Thomas** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OAQ51319 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o allu'r Cynulliad i ddeddfu o dan Ddeddf Cymru 2017 er mwyn gwahardd ffracio?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

7 OAQ51336

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal ynglŷn â mynediad i gyfiawnder yng Nghymru?